

Glois

Rhif 218

Ebrill 2026

Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir **Glois** gan Gymdeithas Edward Llwyd



Cymdeithas
Edward Llwyd



Llun Atun Williams
Dryw bach,
yr hen fynwent
(gwarchodfa natur)
■ Llanelwy
■ 2 Rhagfyr 2025

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn
Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Y Llwynog a'r Frân

Fis diwetha bu tîm golygyddion yn trafod cyfieithiad addas o'r gair Saesneg "**plumage**" yn y Gymraeg. [Saesneg Canol hwyr: o Hen Ffrangeg, o *plume* 'pluen']. A ddylai fod 'na air arall, rhywbeth fel "**pluwig**" ar gyfer yr elfen dorfol sydd yw gael yn y terfyniad S. a Ffr. "-**age**"? I rhywun ag addysg Ffrangeg mae'r gair "**plumage**" yn gyfarwydd iawn. Mae pob plentyn o Ffrainc wedi dod ar ei draws diolch i chwedl enwog iawn sef stori'r Llwynog a'r Frân. Dyma'r chwedl Ffrangeg (difyr!) gan Jean de la Fontaine (chwedl gwreiddiol gan Aesop) a chyfieithiadau yn y Llydaweg a'r Gymraeg fydd yn rhoi cyfle i ddod yn ôl at y gair S. "**plumage**".



1 Cyfieithiad o'r Saesneg

Roedd Meistr Brân yn eistedd ar goeden,
Yn dal caws yn ei big.

Meistr Llwynog wedi'i ddenu gan yr arogl
Dywedodd rywbeth fel hyn:

"Wel, Helô Mr Brân!

Mor bert ydych chi! Mor brydferth ydych chi'n
ymddangos i mi!

Dydw i ddim yn dweud celwydd, os yw eich llais

Fel eich plu,

Chi yw ffenics holl drigolion y coed hyn."

Ar y geiriau hyn, mae'r Frân wrth ei fodd.

Ac er mwyn dangos ei lais hardd,

Mae'n agor ei big yn llydan, yn gadael i'w ysglyfaeth
syrtio

Mae'r Llwynog yn ei gipio, ac yn dweud: "Fy ŵr da,

Dysgwch fod pob gwastadwr **gwenieithwr**

Yn byw ar draul yr un sy'n gwrando arno.

Mae'r wers hon, heb os, yn werth caws."

Y Frân, wedi'i chywilyddio a'i chwithu,

Tyngodd, ond ychydig yn hwyr, na fyddai'n cael ei

gymryd eto. **Google Translate wedi ei olygu'n ysgafn**

2 Cyfieithiad o'r Ffrangeg i Lydaweg:

AR VRAN HAG AL LOUARN

Intron ar Vran ar ur barr azezet

a oa geti un tamm krampouezh lardet.

Daet an Aotrou Louarn da dremen edanti.

Ar vlaz ag ar c'hrampouezh a za betek e fri

hag ar gwel anezhoñ a ra c'hoant d'e galon ;

mes penaos er lemel a bigos ar pichon?

Al louarn, a-viskoazh karget a finesoù,

ne chom ket pell amzer da gaves penn d'e draoù.

Ar-lerc'h en-devout lipet e veg,

èl-mañ e komañs e bredeg ;

« Devezh mat deoc'h, Intron ar Vran, »

a lâ-r-efiv get e vouezh dousañ.

« O, na brav hiziv ho kavan-me!

Mard eo ken brav ho pouezh èl ho sae,

ne vo kavet, pell tro-ha-tro,

ur pichon sort genoc'h er vro. »

Intron ar Vran neuze

ne bad mui get ar joa.

E'it diskoueziñ d'al louarn penaos ema he bouezh,

hi 'zigor ur beg bras, ... ha laosk he zamm da gouezh.

Al louarn er skrap buan

hag a lâ-r d'ar gaezh vran:

« "Lies mat en ur meulour

e kavehet un treitour.

En deskiañ, Intron kaezh,

a dalv un tamm krampouezh. »

Geiriau cytras
C/Llyd.

3 Y LLWYNOG A'R FRAN

Chwef. 21, 1873.

Gwaith Mynyddog CYFROL 1 (Cyfres y Fil)

UN diwrnod aeth brân i lawr i'r glyn,

Ac yno ar lan y lli,

Hi godai grystyn o fara gwyn, gwyn,

Ac ymaith i'r coed a hi;

Ym mrigau hen dderwen fawr uwchben,

Disgynnai ar gangen lân,

Ar hyn dyma llwynog at fôn y pren,

A gwelai y crystyn a'r frân.

"Wel O!" meddai'r llwynog, "y mae hi'n un lân,

Mae'n curo yr adar bob un;

Y fi ydyw honno," dywedai y frân,

Gan siarad â hi ei hun;

Ni welais un harddach erioed ar bren,"

Dywedai y llwynog yn hy,

Mi welais gryn lawer o adar y nen,

Ond welais i 'rioed y fath blu."

Ysgydwai'r hen frân ei hadenydd mor llon,

A'r llwynog mor barod ei ddawn,

A ddwedai,—"Mae deryn mor hardded a hon,

'Rwy'n sicr, yn canu yn iawn."

Wrth glywed fath ganmol, gwirionodd y frân,

A balchder a lanwodd ei bryd,

Agorodd ei phig, a dechreuodd ei chân,

A'r llwynog gai'r bara i gyd.

Os gwelwch chwi llwynog o ddyn ar ryw dro,

A'i eiriau yn weniath di-sen,

Gochelwch ei weniath rhag ofn iddo fo

Gymeryd eich tamaid o'ch pen;

Pan glywch chwi ryw siarad nodedig o fwyn,

A chanmol eich glendid a'ch cân,

Wel, cofiwch ar unwaith y llwynog yn dwyn

Y crystyn o bigyn y frân.



Mae'r cyfieithiad hynaf o'r chwedl, sef **fersiwn 3**

gan Mynyddog, yn cynnig plu ar gyfer S.

"**plumage**". Nid yw Google Tr. 1 yn cynnig dim byd
arall, ond yr hyn sydd yn y GPC sef **plu** hefyd.

FFRANGEG A LLYDAWEG: Ar y llaw arall mae'r Llydaweg - fersiwn

2 - wedi mynd ati i roi cynnig ar yr elfen dorfol sydd i'w gael yn y
Ffrangeg gwreiddiol - mae'r Ffr. *plumes* yn wahanol i *plumage* [Ffr.].

Mae gair *plumage* yn odli gyda'r gair *ramage* sydd yn golygu

cân aderyn pan mae'n clwydo ar gangen. Defnyddiodd

Stevan ar Strad, yn ei gyfieithiad Llydaweg (tafodiaeth

Gwened), y gair "*sae*", sydd yn golygu ffrog heddiw, ond roedd yr

hen air Celtaeg gwreiddiol, Lladin wedyn (*saqum*), yn golygu gwisg yn y
lle cyntaf. **DK**

**Tybed oes yna le i ystyried defnyddio gair newydd, rhywbeth fel
pluwig erbyn hyn, yn enwedig ar gyfer disgrifio plu adar mewn
erthyglau sy'n ymwneud â'r byd natur yn y Gymraeg?**

Gan olygydd G.P.C. - "Baswn i'n dadlau nad oes angen

gair newydd am '*plumage*' - mae 'plu' yn gwneud y tro'n iawn,

am wn i. Dyna sydd gan Bruce yn Geiriadur yr Academi -

bedair gwaith, gan gynnwys 'plu eilradd' am '*secondary*

plumage'. 'plu' hefyd sydd gan Silvan Evans a John Walters

(prif fathwyr geiriau y Gymraeg!) yn eu geiriaduron nhw. Gan

fod 'plu' yn dorfol ac yn lluosog, mae'n fwy cwmpasog na

'*feathers*' yn Saesneg, ac mae'n fwy naturiol i'w ddefnyddio

am '*plumage*' na byddai '*feathers*' yn Saesneg". **GPC**

I gloi: Mae tîm Glas wedi mentro cynnig y gair 'gwneud' *pluwig* yn y
rhifyn hwn. Bydd hwnnw yma fel cofnod - yn barod i'w ail-ystyried os
bydd geiregwyr G.P.C. yn cytuno gydag adarwyr yn y dyfodol. Mi rydym
ni'n derbyn yr ateb synhwyrol a'r awgrymiadau rhesymegol sy'n
ymddangos uchod.

Cimwch yr Arwyddnodau...

...a hwyaden frongoch!

Hwyaden frongoch wedi dal cranc. [?]
Afon Glaslyn, Porthmadog 4 Mawrth 2026
Ellyn Lewis



Cynigion plis. Cranc cyffredin? Ta cimwch yr afon (*crayfish*)? **Signal crayfish** ella (cimwch yr arwyddnodau). Does gen i ddim gwybodaeth arbenigol ond mae yna smotiau gwyn ar y crafangau sydd yn awgrymog. ▽

DB



Isod: Ardal y Cotswolds, Lloegr.....Cimwch y dŵr (*Crayfish*), ond ddim yn siwr pa rywogaeth. Gwn fod rhai wedi eu cyflwyno yn creu problemau yn ein hafonnydd. Hwn yn ardal y Cotswolds, mewn afon fâs yn rhedeg trwy Bourton-on-the-Water heddiw (07/06/2024). Ddim yn lun da trwy'r dŵr.

- Pa rywogaeth?
- Rhywun yn gwybod? Dim Enw



Cimwch yr arwyddnodau



HEDDIW MEWN HANES 2018

Ymwelydd o'r UD sydd wedi mynd yn hyfach na'i groeso. Dyma Gwilym Arthur:

Ar fin cael gwared o'r llun cyn sylwi fod ganddo rhywbeth yn ei big. Sgwn i, a fedrith y prae fod yn *signal crayfish*? Llun a dynnwyd mewn pwll o dan Pont Glaslyn 08-01-2018 meddai Gwilym.

- HWYADEN FRONGOCH ▽ ydi'r aderyn gyda llaw -



Cimwch y dŵr

Ffurf liwcistaidd brin



"Cwtiar (*Coot*) liwcistig. Ghent, Gwlad Belg [08-03-2026].
Roedd yr aderyn wedi paru, nythu ac yn rhannu dyletswyddau gori'r wyau."

Dewi Lewis

Ffurf felanistaidd brin

Llun Alun Williams



Gwiwer lwyd (ddu), gardd gefn y mab ger Caergrawnt.

Mae gwiwerod duon yn amrywiad melanistig (blew tywyll) o'r wiwer lwyd ddwyreiniol (*Sciurus carolinensis*) a achosir gan ddarn coll o DNA. Er eu bod yn wreiddiol o Ogledd America, maent [y rhai duon felly] yn gyffredin mewn rhannau o'r DU (poblogaeth amcangyfrifedig o 25,000), gweddol gyffredin yn y de ond dwi erioed wedi gweld un yng Nghymru.

Alun Williams

■ Nes i weld un ne ddau ochra Cambridge chydig o flynynddoedd yn ôl. Steff Hughes

■ Pan oeddwn yn Ontario, dim ond rhai duon weles i. Siôn Aled Owen

■ Llawer i'w gweld o gwmpas Ottawa
■ Nia Williams, dwi wedi gweld sawl un yng Nghanada AW

Wiwerod llwyd ar Ynys Môn?

■ Sawl un yn Nant y Pandy yn Llangefni. Nesta Wynne
■ Nesta Wynne, mi roeddwn yn meddwl nad oedd wiwerod llwyd yn Sir Fôn AW

■ Rhai - gwaetha'r modd. Ddrwg gen i wedi hanner darllen be sgwenwyd - ond mae rhai bach wedi eu trosglwyddo i wella'r 'gene pool' o'r rhai coch. Ynddiheuro am ddrysu pawb. NW

Trafodaeth pellach yn y dyfodol...

Ffishffingars

Beth mae'n ddweud ar y bocs. Gawson ni ffishffingars i de neithiwr (nid pryd arferol i ni). Roedden nhw'n ddigon derbyniol. Dyma weld y côd QR ar y bocs sydd i fod i'ch arwain at fwy o wybodaeth. A dyma fi'n gwneud...

Wedi eu gwneud o bysgod **MORLAS ALASGA** oeddynt. Cewch ddarllen isod broliant cwmni BirdsEye ddaeth i fyny, a map o ffynhonnell ein pryd. Ymchwilio mymryn ymhellach ac mi welaf nad yr un peth a'n morlas ni, **MORLAS YR IWERYDD** yw morlas Alasga. Mae'n debyg eu bod yn ddigon agos i deilyngu, ill dau, cael eu galw yn morleisiaid (y ddau yn nheulu'r *Gadidae*, teulu'r benfras).

Pwy sydd wedi dal morleisiaid yng Nghymru? Fy unig brofiad o forlas 'ni' yw cwch bysgota fûm i'n gwyllo yn dadlwytho helpa ohonynt yn Dun an ghall (Donegal) tua'r 70^{au} pan fu'm i'n ymweld ag Ynys Torraigh. Sgwn be fyddai eu hynt wedyn - dwi ddim yn eu gweld yn aml ar slabs gwerthwyr pysgod.

Er iddo gael ei bysgota'n 'gynladwy' yn ôl BirdsEye, ysgwn i beth oedd ôl-troed carbon morlas Alasga - tipyn o daith i rewgelloedd Tesco Caernarfon! Efallai bod y cwmni yn ddigon hapus i chi feddwl mai morlas yr Iwerydd sydd yn eu ffishffingars (mae'n werth clicio'r QRs, mae rheini yn gorfod dweud y gwir dan y Ddeddf Disgrifiadau Masnach – er bod rheini ddim yn rhydd o sbin!).

Niwl Mawrth a Chwn Ebrill

Bore cynnar iawn ar Fynydd Hiraethog, [niwlog] yn anffodus [ac yn ffodus yn wir! DB].

Roedd niwl trwchus ar y mynydd ond roedd y niwl yn creu awyrgylch hudolus [23 Mawrth 2026].

Roedd y gyflfinir yma llai na 10m i ffwrdd, clywed ei alwad yn glir ond anodd ei weld yn y niwl trwchus.

Alun Williams



- **cŵn Ebrill**: fanciful name given to curlews, esp. when their cries are heard at night during spring (lit. April dogs).

Ar lafar yn Arfon.



Melinau gwynt uwchben y niwl AW

Cloc y Dref

Cloc y dref, 'moschate!' yn ei gynefin. Y Nant, Llandegfan.

W. Emrys Roberts



Ciconia ym Môn



11 Ebrill 2025 ■ Wil Williams wedi rhannu'r lluniau a'r nodyn hwn ddoe: "Newydd weld White Stork ar le gwlyb yn ymyl llyn..." - cyfrinach yw'r gweddill

Bwncath efo Broga/Llyffant yn y Rhyl heddiw




Lluniau Gareth Wynne Williams



Bwncath neu hebog yn dal broga neu llyffant. Darlun ar ôl engrafiad toriad pren hanesyddol o'r 17^{eg} ganrif.



Deintlys (parasit)



Dosbarthiad y deintlys yng Nghymru (BSBI [?] - gweler sylw Iwan Williams)

Deintlys - parasit sydd yn tynnu maeth o wreiddiau coed

Mawrth 20fed, Rhesycae, Sir y Fflint


■ Deintlys (*Lathraea squamaria*). Fel un sydd yn blodeuo ym mis Ebrill dwi'n ystyried hwn - felly ychydig yn annisgwyl oedd dod ar ei draws...

Rhywogaeth anghyffredin - parasit sydd yn tynnu maeth o wreiddiau coed, cyll yn bennaf ond ar eraill weithiau. Nid oes dail iddo gan nad yw'n cynhyrchu cloroffil fel y rhan fwyaf o blanhigion. Os ydych yn byw "tua'r gorllewin" ...mae hwn fwy neu lai yn absennol. Yma yn y dwyrain a'r gororau mae cadarnle'r planhigyn rhyfedd yma yng Nghymru.

Iwan Roberts

5

Simffoni o goch, gwyrdd a melyn




Buwch goch gota yn yr ardd heddiw

(21-3-26) Nefyn - Pen Llŷn

Bethan Vaughan Davies

Blaenau Ffestiniog – ‘Tref y Glaw’?

Paul Willias: ecolegydd, mwydryn, garddwr drama
@Wilias Stiniog (parhad)



Mae'r gymhariaeth isod, a'i gasgliad cyffelyb o ddata o Faes Gwynedd, Waunfawr (gorsaf dan ofal Gethin Pritchard) efallai yn taflu mymryn o oleuni 'realaeth' ar 'y myth'. Ydi Blaenau yn wlypach na Waunfawr (wel, gwlypach yn 2025 o leiaf?).

Heb fynd i or-gyffredinol i safleoedd eraill, yr ateb yw 'ydi' er fod y ddau le yn cyd-amrywio yn agos ar wahanol lefelau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn o gwmpas y llinell gynhoi.

- Mae'r ffigyrau am y gymhariaeth ger y pwyntiau yn y graff yn dangos y bu glaw Blaenau ddwywaith yr hyn oedd glaw Waunfawr ar gyfartaledd (cyfanswm Waunfawr yn 1397mm o'i gymharu a 2788 dros y flwyddyn).

- Roedd gwyrriad Tachwedd o'r llinell bron i 4 gwaith yn uwch na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl o'r gwahaniaeth arferol. Cofiw'n bod 2025 yn flwyddyn 'eithriadol' o sych a heulog. Ond pa flwyddyn, erbyn heddiw, sydd DDIM rhywfodd yn eithriadol. Mae Derek Brockways ac Alex Jones' y byd yn hoff o ddweud bod y 'tymereddau' (ychafi!) yn uwch na, neu'n dychwelyd i 'norm'. Rhaid gofyn pa mor 'normal' oedd 2025... neu yn hytrach, "beth yw 'normal yn ein dyddiau ni'. Onid yw hynny yn dibynnu ar ba mor hen ydych chi?

O blog Wilias (Glas 217):


Roedd yn haf cofiadwy iawn, a llawer yn lleol yn ei ganmol fel un oedd yn brafiach hyd yn oed na 1976. Trodd y rhod i raddau ym Medi gan ddechrau tymor gwlyb iawn yn yr hydref. Dim ond dau ddiwrnod oedd heb unrhyw law yn mis Tachwedd, a chyfanswm glawiad y mis dros 500mm - ia, dros hanner metr (20 modfedd)! Cafwydd barrug/rhew ar foreau'r 19-20-21^{ain}.

Digon ansefydlog oedd Rhagfyr: ambell ddiwrnod braf, llawer o ddyddiau budr; daeth gwyntoedd efo storm Bram ar y 9^{fed}-10^{fed} (85 milltir yr awr yng Nghapel Curig, a rheilffordd Dyffryn Conwy wedi cau oherwydd i goeden ddisgyn ar y cledrau- yn wahanol i'r esgus rhwystredig arferol o 'lifogydd'). Daeth y flwyddyn i ben efo cynnod sych iawn: wyth diwrnod sych grimp rhwng yr 20^{fed} a Nos Galan, a 4 arall efo llai nag 1mm. Doedd yna ddim Nadolig gwyn, ond roedd barrug ar y ddaear ar y 26^{ain} ac roedd wedi rhewi'n galed ar fore ola'r flwyddyn. **PW**

Patrymau newydd: mwyar duon

Ydyn ni'n casglu mwyar i wneud teisennau mwyar duon yn gynt pob blwyddyn?

Gill fy ngwraig yn tyrchu trwy hen ffeiliau bore yma...



Cofnod tra'n byw yn Llanelltyd ger Dolgellau o drin mwyar duon yn fuan ar ôl i'r don fawr o wres ddod i ben gyda glaw mawr ar yr 8 o Fedi (yn ôl Aneurin Phillips):

Yr Wyddgrug: Fe ddaeth y monswn - nos fercher 8/9/76- o'r diwedd. Dyddiadur Aneurin Phillips (Y Tywyddiadur)

Cofnododd Gill iddi gael dau bwys o jeli a phedwar pwys o fwyar ar y 18 Medi y flwyddyn honno, o ffrwythau (gwyllt yn sicr) a gasglwyd yng nghyffiniau Stad y Nannau ar ôl i 'fonsw'n' Aneurin uchod dawelu dipyn – o gwmpas y 15 Medi (gweler isod Nodyn ar y Tywydd) - tymor mwyar hwyrach na heddiw .


Cawsom gyfle i'w casglu ar ôl y 13 Medi 1976 pan gofnodais ym Morfa Harlech:

13/9/1976 ■ Small fragmented areas of open water have now appeared after about a week of rain. **DB**

...a thywydd 'dipyn yn well' yn ôl dyddiadur John Henry Hughes o Botwnnog yr un diwrnod. Cafodd ein mwyar duon fantais trochiad o law mawr am wythos ar ôl yr haf poetha a hiraf mewn cof.


Ydym ni'n casglu mwyar duon ynghynt rwan nag yn 1976? Ta oedd 1976 yn eithriad p'run bynnag?

Dyma graff o gofnodion 'hel mwyar duon' (neu eiriau i'r un perwyl yn y ddwy iaith) yn y Bwletin (Glas erbyn hyn) yn 2014 i gyd o'r Tywyddiadur, pan oedd hwnnw yn dal i fod yn 'Dyddiadur' y pryd hynny. Wrth gwrs doedd cofnod **GB** o 1976 ddim wedi dod i'r fei ar y pryd ond ychwanegwyd hwn wedyn ('ar ôl y ffaith' fel petai).



Tybed ydi cofnodion Cymuned Llên Natur (Ffigur 2) yn parhau a'r duedd gyda dyddiadau 'hel cnwd-digonol i wneud teisen'...?

Tudalen postiad gwreiddiol o Fwletin 2014



Er nad yw maint y ddwy sampl (Ffigyrau 1 a 2) yn ddigon mawr i ddatgan tuedd pendant, ond mae'r data yn dangos yn eitha clir bod mwyar duon yn Nghymru yn aeddfedu'n gynt heddiw nag ers talwm.

Nodyn am y tywydd eithriadol yn 1976

Cafodd Gill a finnau gyfle i gasglu mwyar Llanelltyd ar ôl y 13^{ed} Medi - ar ôl i'r tywydd droi yn 'fonsw'n' o gwmpas y 8^{ed} o Fedi):


Cafodd ein mwyar duon fantais trochiad o law mawr am wythos ar ôl yr haf poetha a hiraf mewn cof.

Cwestiwn: **Ydyn ni'n casglu mwyar duon ynghynt rwan nag yn 1976 felly? Ynteu oedd 1976 yn eithriad p'run bynnag?**

Ateb: Y DDAU! Ffigur 1 yn dangos tuedd ers 1885 o ffrwytho cynharach a barheid ar ôl 2020 fel mae Ffigur 2 yn ei ddangos. Ond roedd cofnod 1976 yn hwyrach na'r disgwyl yn ôl maint y gwyrriad o'r llinell atchwel (regression line).

Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni:
 bwletinglas.llennatur@gmail.com

Cimyches yn Rhosneigr

Cimyches yn Rhosneigr, "brownas" ym Mhenllŷn - Hon wedi ei dal wrth gimycha gyda'r plant yn Rhosneigr. Wedi ei mesur a'i rhoi'n ôl yn ofalus cyn gynted a phosib.

Llun (sgrinlun o fideo) gan Sion Edwards...

■ Brownas neu brywnas - cimwch efo wyau. **Greta Huws**

■ Cymryd mai term sgotwrs Llŷn yw BROWNAS. Dydio ddim yn GPC. Fedrwyd chi gadarnhau eich ffynhonell (hyd yn oed os mai llafar yn unig ydi'o Greta Hughes) **DB**



■ Llafar, hefyd yng ngeiriadur Bruce dwi'n meddwl. Rydym ni'n ei ddefnyddio'n gyson yma ym Mhen Llŷn - gystad pob tamed a "berried hen" yr iaith fain. **GH**

■ Ia 'brywnEs' sydd gan GyA (ond hwnnw chwaith ddim yn GPC - oes yna enghraifft o gwbl o'r term yn ysgrifenedig?). Mae GyA hefyd yn cynnig cliw am 'berried hen'... y 'berries' yn smotiau oren ar lun Sion - efallai codau wyau? **DB**

■ Yn newydd ddodwy'n ddu - ac yn mynd yn fwy oren wrth iddynt aeddfedu. Smotiau duon y llygaid i'w gweld cyn iddynt ddeor. **GH**

Mwy am y 'berried hen' yma:

Beth bynnag mae rhywun yn feddwl o AI mae'r posibiladau yn aruthrol. Dyma be geshi ar ôl gofyn "what is a 'berried hen' ": "A "berried hen" is a female lobster (or crawfish) carrying fertilized eggs attached to her tail, which look like a cluster of berries, usually dark green to red in color. These egg-carrying females can hold up to 20,000 eggs for up to 10 months, making them vital for conservation and breeding.

Northumberland Seafood

Key Details About Berried Hens:

Appearance: Eggs are attached to the swimming legs (pleopods) under the tail. They start small and dark green, becoming larger and reddish-black as they prepare to hatch.

Protection: In many regions, it is illegal to land or sell a "berried" lobster. They must be returned to the sea to protect the next generation, notes Facebook.

Conservation (V-Notching): Fishermen often cut a V-shaped notch into the tail of a berried hen, ensuring that if she is caught again without eggs, she is still recognized as a valuable breeding female and **returned to the water.**

- A** helygen wen **B** ywen **C** merywen **D** cerddinen Morgannwg **E** celynen
F bedwen **G** collen **H** castanwydden bêr **I** cerddinen wyllt

Help (yr enwau gwyddonol): ■ *Taxus baccata*, ■ *Castanea sativa*, ■ *Butula pubescens*, ■ *Corylus avellana*, ■ *Salix alba*, ■ *Sorbus torminalis*, ■ *Ilex aquifolium*, ■ *Sorbus domestica*, ■ *Juniperus communis*

Y Bwriadur



PlantNet
Yn y Gymraeg!

1



2



3



4



5



6



7



8



9

